# Yma Gyda'n Gilydd

Rhifyn 2 - Nadolig 2021

# Nadolig Llawen i bawb!

*...a **Gwyliau Hapus** hefyd!*
*gan 9Q yn Ysgol Uwchradd y Frenhines Elisabeth*

***(Mae Rhifyn 3 ar gael nawr hefyd!)***


| | | |
|---|---|---|
| Chwileiriau<br>tud. 10, 12 a 16 | Adolygiadau<br>tud. 1-3, a 6 | Erthyglau<br>tud. 5, 8 a 9 |
| Rygbi<br>tud.5 | Cwisys<br>tud.4, 7 a 11 | ...a llawer mwy! |

# Minecraft




**gan Steffan C.**

**Wyt ti'n chwarae Minecraft?** Mae Minecraft yn gêm rwyt ti'n gallu gwneud tai ac rwy ti'n gallu gwneud beth bynnag rwyt ti moyn. Hon yw'r gêm mwyaf poblogaidd gyda 140 miliwn o bobl yn chwarae arlein bob dydd.

Mae 238 miliwn o gopîau o Minecraft wedi cael eu prynu dros y byd ers 18 Tachwedd 2011 ond dechreuodd yn wreiddiol yn Mai 2009.

**Felly beth ydw i'n meddwl am y gêm?** Mae Minecraft yn gêm dda iawn (rydw i'n chwarae fe drwy'r amser). Mae'n gallu bod yn dda am ddysgu pethau fel mathemateg a gwyddoniaeth. Mae rhai pobl yn dweud bod y graffeg ddim yn dda ond dyna steil Minecraft ac yn fy marn i dyna ran pwysig o'r gêm. Dw i ddim yn gallu meddwl am ddim byd o le am Minecraft - dw i'n rhoi **5/5 - gêm wych!**




**Geirfa:**
poblogaidd (popular)
yn wreiddiol (originally)
pwysig (important)



# Diweddglo Rupauls Drag Race UK3

gan Jasmin



Mae'r diwedd y gyfres hon ar Rupaul's Drag Race ac so ni yn gwybod eto pwy fydd yn ennill tan ddydd Iau nesaf!

**Pwy ydych chi meddwl dylai ennill?** Krystal Versache, Ella Vaday neu Kitty Scott-Claws? Ond pwy bynnag fydd yn ennill dwy'n siwr bod nhw'n haeddu'r goron!



Mae'r ffeinal hwn yn mynd i fod yn Nadolig - ydych yn meddwl bod Rupaul yn mynd i gael rhyw fath o syrpreis i ni? Falle fel yr sypreis yn Lip Sync Snatch Off rhwng Rupaul a Michelle?

Mae na lot o bethau i feddwl amdano ac i fod yn onest dwy'n teimlo bod y gyres hon o Rupauls Drag Race DDIM mor dda na'r ail rhai hefyd, roedd y cast DDIM mor dda ac mae'r sialens canu DDIM mor dda na'r United Kingdolls neu Filth Harmony.
'Na gyd sydd gyda ni heddiw!



**Pwy fydd yn ennill te?** Dwy'n meddwl Krystal fydd, oherwydd mae wedi ennill lot o bethau ac mae wedi bod yn gystadleuydd da iawn bob tro!

4 / 5 am y tymor hwn



**Geirfa:**
**diwedd y gyfres (end of the series)**
**haeddu'r goron (deserve the crown)**
**cystadleuydd (competitor)**

# No Time To Die

*gan Corin*




Mae'r ffilm diweddaraf James Bond yn anhygoel. Roedd yna rhaid i ni aros 18 mis i wylio'r ffilm 'No Time To Die' - wel, mae'n rhaid i mi ddweud roedd yn werth aros i'w gwylio hi!

Mae 'No Time To Die' gan y cyfarwyddwr Cary Joji Fukunaga yn cynnwys actorion gwych fel Daniel Craig (James Bond) a Ralph Fiennes (sy'n chwarae rhan 'M').

Roeddwn i yn hoffi'r olygfa gyntaf oedd yn llawn tyndra. Roedd hi'n ymwneud â phrofiad trawmatig a gafodd cariad Bond o'r enw Madelin pan roedd hi'n blentyn bach. Roedd yn dechreuad cyffrous iawn. Fy hoff gymeriad yn y ffilm i oedd y gwyddonwr o Rwsia, Valdo Obruchev oherwydd roedd ei acen yn ddoniol iawn oherwydd roedd e'n swnio'n rhyfedd. Hefyd cadwodd Valdo wneud pethau annisgwyl, fel rhedeg i ffwrdd gyda sefydliadau eraill. Fe ges i syndod trist iawn ar ddiwedd y ffilm, ond roedd hi'n crynhoi bywyd James Bond.

Rydw i'n argymell y ffilm hon i oedrannau 12+. Mae e'n cynnwys llawer o drais a tipyn bach o iaith ddrwg ond os dydych chi ddim wedi gwylio'r ffilm yn barod mae'n dod i wasanaethau ffrydio ar y 20fed o Ragfyr - yn barod i Nadolig. Felly byddwch yn barod i wylio ffilm (olaf?) James Bond!

**4.5 / 5**



**Geirfa:**
**yr olygfa gyntaf (the first scene)**
**acen (accent)**
**crynhoi (summarise)**

# JAMES BOND QUIZ






1. FAINT O FFILMIAU JAMES BOND SYDD WEDI CAEL EI CREU?




2. PWY CHWARAEODD JAMES BOND YN 'YOU ONLY LIVE TWICE'?

3. PWY YW'R PRIF DDIHIRYN YN JAMES BOND?



4. BETH YW'R FFILM JAMES BOND DYWEDDARAF?

5. BETH OEDD FFILM CYNTAF JAMES BOND?



6. PA FFILM CAFODD EI RYDDHAU YN 1974?

7. YN GYFFREDINOL PA ACTOR CHWARAEODD JAMES BOND Y FWYAF?




8. BETH YW ENW GWRAIG JAMES BOND?

9. BETH YW ENW MERCH JAMES BOND?



10. FAINT O POBL SYDD WEDI CHWARAE JAMES BOND?

Answers

27, Sean Connery, Ernst Stavro Blofeld, No time to die, Dr. No, The man with the golden gun, Roger Moore, Tracy Bond, Mathilde Swann, 6.

## Atebion ar y dudalen olaf

## Gemau Rhyngwladol yr Hydref gan Wil

# Cymru v Ffiji

Enillodd Cymru y gêm yn erbyn Ffiji **38-23** yn y Stadiwm Principality ddydd Sul. Chwaraeodd Cymru yn wael am y 65 munud gyntaf ond ceisiau hwyr gan Louis Rees-Zammit, Alex Cuthbert a Liam Williams enillodd y gêm i Gymru. Cafodd Fiji arwain yn gynnar ond cafodd yr asgellwr Ffiji, Eroni Sau, garden goch pan wnaeth e dacl peryglus a chafodd chwaraewr arall ei hala i'r gell gosb.



Er bod e'n 15 yn erbyn 14 (a 13 weithiau) doedd Ffiji ddim yn gadael Cymru cael cais. Roedd cefnogwyr Cymru ac hyfforddwyr Cymru yn siomedig gyda pherfformiad Cymru. Yn yr hanner cyntaf cafodd Fiji llawer o geisiau a chwaraeon nhw yn dda iawn er bod gyda nhw un chwaraewr yn llai. Ond o ran Cymru roedd un chwaraewr wedi chwarae yn dda iawn sef Liam Williams, a gafodd seren y gêm. Felly cafodd Cymru ei buddugoliaeth gyntaf yng Ngemau Rhyngladol yr Hydref - yn y pendraw!.

**Tîm Cymru**

Blaenwyr

- 1 Rhys Carré
- 2 Ryan Elias
- 3 WillGriff John
- 4 Will Rowlands
- 5 Adam Beard
- 6 Ellis Jenkins (Capten)
- 7 Thomas Young
- 8 Taine Basham

Cefnwyr

- 9 Kieran Hardy
- 10 Dan Biggar
- 11 Louis Rees-Zammit
- 12 Johnny Williams
- 13 Nick Tompkins
- 14 Alex Cuthbert
- 15 Liam Williams

**Tîm Ffiji**

Blaenwyr

- 1 Peni Ravai
- 2 Samuel Matavesi
- 3 Mesake Doge
- 4 Api Ratuniyarawa
- 5 Temo Mayanavanua
- 6 Albert Tuisue
- 7 Mesulame Kunavula
- 8 Viliame Mata


Cefnwyr

- 9 Frank Lomani
- 10 Ben Volavola
- 11 Eroni Sau
- 12 Vilimoni Botitu
- 13 Waisea Nayacalevu (Capten)
- 14 Josua Tuisova
- 15 Setariki Tuicuvu

# Adolygiad Llyfr: 'Shadow and Bone'

## gan Catrin

Heddiw, rydw i yn mynd i adolygu'r llyfr 'Shadow and Bone' gan Leigh Bardugo. Mae'r llyfr hwn yn llyfr ffantysïol ac yn cael ei gosod yn y 'GrishaVerse'.




Alina Starkov ydy'r prif gymeriad ac mae hi'n byw yn Ravka (gwlad ffantysiol yn y llyfr). Mae Alina yn 17 mlwydd oed yn y stori ac yn gweithio yn y fyddin. Cafodd ei rhieni ei lladd gan y 'Shadow Fold' (gorchudd du sydd wedi rhannu'r wlad mewn dau). Ffrind gorau Alina ydy Mal sydd yn yn y fyddin gyda hi hefyd.

Un dydd, mae Alina ac Mal yn cael ei anfon mewn i'r 'Fold' i mynd i'r ochr arall o'r 'Fold'. Pan maen nhw yn yn yr 'fold' mae'r creadur i mewn yn trial i ladd nhw pan mae Alina yn gwys golau ac yn arbed Mal ac yn lladd y creadur. Wedyn, mae Alina yn cael ei hanfon i hyfforddi gyda'r gwyswyr eraill. Mae'r llyfr yn gyffrous iawn gyda llawer o gymeriadau a llawer o droelli a throi.

Fy hoff rhan o'r llyfr hyn ydy pan mae Alina a Mal yn dod o hyd i'ch gilydd i achub pawb o'r 'Fold' ac o'r dihiryn. Mae'r dihiryn yn moyn i'w wneud y 'Fold' yn fwy. Gwnaeth Mal a Alina dianc o'r dihiryn ac yn teithio i wlad arall i ddod yn gryfach i ddinistrio y 'Fold' i ail-uno'r wlad.




Yn fy marn i, rydw i yn credu bod y llyfr hyn yn fel 'Harry Potter' oherwydd mae'r prif gymeriad yn cael ei rhoi i mewn i byd llawn hud ac ymladd.

Rydw i yn credu y dylech chi darllen y llyfr hyn oherwydd mae'n cyffrous ac hudolus. Mae'r llyfr hyn yn 358 dudalen ac yn cymryd rownd 8 oriau i gorffen. Rydw i'n credu bod y llyfr hwn yn **4.5 allan o 5** achos mae'r cymeriadau yn gwahanol ac mae'r plot yn gyffrous iawn i ddilyn.

**Geirfa:**
prif gymeriad (main character)
gorchudd ddu (black shroud)
hudolus (magical)
gwysio (to summon) gwyswyr (summoners)

# Cwis 'Shadow and Bone'

**Atebion ar y dudalen olaf**




1. Pwy ydy'r prif cymeriad?
2. Pa wlad ydy'r 'Shadow and Fold' yn rhannu?
3. Beth ydy Zoya yn gwysio?
4. Beth ydy'r 'Grisha' yn gwisgo?
5. Pwy yw hoff ffrind Alina?
6. Oedd Alina yn y fyddin - gwir neu anwir?
7. Beth yw enw iawn y 'Darkling'?
8. Baghra ydy mam y 'Darkling' - gwir neu anwir?
9. Beth yw enw y Tailor?
10. Faint o gyllyll sydd gyda Inej?

.

# Ydy 'Jaffa Cake' yn gacen neu'n fisged?

*Mae* **Aled** *yn gofyn y cwestiwn pwysig!*

***Mae cwestiwn hwn yn cael ei ofyn llawer - ai cacen neu bisged yw Jaffa Cake? Yn wir, roedd y cwestiwn hwn mor bwysig aeth gerbron y llys.***

***Y rheswm? Achos mae mwy o dreth ar gacenni achos mae'n fwyd 'moethus'. Ond dydy bisgedi ddim yn fwyd 'moethus' ac felly yn talu dim treth. Felly mae'r cwestiwn hwn wedi costio MCVitie's filiynau o bunnoedd.***




***Yr ateb?***
***Penderfynodd y llys i alw Jaffa Cakes yn gacen achos mae cacen yn mynd yn galed pan mae e'n llwydi (mynd off), ac mae bisged yn mynd yn feddal. Nawr rydyn ni'n gwybod!***

*Geirfa:*
*gerbron y llys (to go to court)*
*treth (tax)*
*moethus (luxurious)*

# Hen Arferion Blwyddyn Newydd Cymru

*gan Finn*

<u>Hen Galan *(The Old New Year)*</u>
Fel arfer rydyn ni'n dathlu y flwyddyn newydd ar Ionawr y cyntaf ond mae rhai llefydd yn dathlu y flwyddyn newydd ar Ionawr 13! Mae rhannau o Sir Benfro a Sir Aberteifi yn dathlu yn ól yr hen galendr. Mae plant yn cerdded o dŷ i dŷ yn canu caneuon sy'n heb newid ers canrifoedd ac mae'r bobl yn rhoi losin neu ffrwythau iddyn nhw.

<u>Hel Galennig</u>
Mae hyn yn poblogaidd dros Gymru - ar Ionawr y gyntaf - i blant mynd o gwmpas yn casglu 'calennig'. Bydd yr plant a dathlu wrth ganu ac yn cael arian neu anrheg calennig am wneud. Dim ond yn y bore fydd y plant yn gwneud hyn, achos roedd rhaid dymuno blwyddyn newydd dda cyn hanner dydd. Dyma un pennill roedden nhw'n canu:

***Blwyddyn newydd da i chi,***
***Ac i bawb sydd yn y tý.***
***Dyma yw'n dymuniad ni,***
***A'r flwyddyn newydd hon.***



<u>Addurno afal</u>
Roedd hi hefyd yn arferiad i fynd ag afal rydych wedi addurno o gwmpas y pentref. Roedd plant yn casglu coed a phethau o'r ardd ac yn addurno afal. Roedd gan yr afal freichiau a choesau.

<u>Coelcerth y Galan *(New Year Bonfire)*</u>
Yn yr hen amser roedd pobl yn adeiladu coelcerth fawr ynghanol y pentref a byddai pawb yn sefyll o gwmpas. Roedd hyn i groesawu'r Flwyddyn Newydd. Ar yr un pryd byddan nhw'n gadael i'r tân yn eu tai ddiffodd (mynd mas). Mae hyn yn dangos bod pawb yn dweud ffarwel i'r hen flwyddyn.



<u>Ymwelydd y Galan *(New Year Visitor)*</u>
Roedd y pobl cyntaf i ddod i'ch tŷ yn bwysig iawn ar ddydd Y Galan. Rroedd hi'n bwysig, mae dyn gwallt tywyll fyddai'n dod yn gyntaf achos roedd hyn yn lwcus. Pe bai'r dyn yn cario glo, bara ac arian roedd hyn yn lwcus iawn achos roedd hyn yn golygu byddai'r tŷ yn gynnes drwy'r flwyddyn, gyda digon o fwyd a digon o arian.

**<u>Geirfa:</u>**
Y Galan (The New Year) dathlu (celebrate) arferiad (custom)

# Chwilair 1

gan Morgan

**Thema: Yr Ysgol**

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| p | c | f | l | c | l | ch | c | y | m | l | ll |
| b | e | g | g | h | m | s | a | rh | a | m | y |
| a | d | l | th | w | n | t | d | a | s | n | f |
| b | e | h | d | a | o | u | a | c | g | o | r |
| a | r | t | p | r | r | p | i | c | e | p | s |
| r | u | r | o | a | o | p | r | d | f | p | t |
| d | f | s | n | e | ff | e | y | p | g | a | u |
| b | w | r | dd | o | d | n | d | a | h | r | r |
| a | y | e | l | n | e | s | a | p | l | c | w |
| b | y | n | dd | h | f | i | b | u | g | h | y |
| c | rh | y | g | l | a | l | c | r | ng | ll | y |
| g | e | m | **p** | **r** | **e** | **n** | **m** | **e** | **s** | **u** | **r** |

**Geiriau:**

| | |
|---|---|
| **pêl-droed** | **bwrdd** |
| **chwaraeon** | **pensil** |
| **gêm** | **cadair** |
| **parch** | **pen** |
| **masg** | **pren mesur** ✔ |
| **llyfr** | **papur** |

# Cwis Random Kayla

1. Pwy oedd y dyn Spiderman cyntaf?

2. Sawl diwrnod tan y Nadolig ar 01.12.21?

3. Pwy yw seleb enwocaf 2021?

4. Faint o lythrennau yn y Wyddor Gymraeg?

5. Beth yw prifddinas Brasil?

6. Beth yw prifddinas Cymru?

7. Pa flwyddyn y daeth y ffilm Spiderman cyntaf allan?

8. Ym mha fis mae'r Pasg fel arfer?

9. Ar ba dymheredd mae dŵr yn berwi?

10. Beth yw 2 enw arall am Sion Corn?

**Atebion ar y dudalen olaf**

# **Chwilair 2** gan Tommy

**Thema: NADOLIG**

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| N | B | A | S | I | N | D | C | I | E | G | D |
| C | A | W | Y | N | A | I | S | N | L | FF | O |
| O | D | D | E | R | D | L | C | E | R | L | A |
| E | S | R | O | N | O | O | S | DD | R | D | O |
| D | L | DD | E | L | L | N | A | CH | LL | E | N |
| N | E | O | LL | M | I | N | S | P | E | I | N |
| A | D | W | Y | T | G | G | I | NG | I | PH | R |
| D | E | R | M | W | G | A | LL | N | C | D | W |
| O | B | A | B | A | N | A | LL | A | S | Y | N |
| L | O | C | O | M | CH | G | R | E | W | N | RH |
| I | T | C | I | L | I | W | D | LL | O | E | PH |
| G | D | **S** | **I** | **O** | **N** | **C** | **O** | **R** | **N** | G | N |

**Geiriau:**

| | |
|---|---|
| **Nadolig** | **Asyn** |
| **Tinsel** | **Seren** |
| **Baban** | **Mins pei** |
| **Sion Corn ✔** | **Nadolig Llawen** |
| **Coed Nadolig** | **Sled** |
| **Simnai** | **Carw** |

# Proffil: GIGI HADID

***gan Trinity***




♡ Model yw GIGI HADID ers 2 flynedd
♡ Mae hi'n 26 blwydd oed
♡ Mae un plentyn gyda hi.
♡ Enw llawn Gigi yw ***Jelena Noura Hadid***
♡ Mae hi'n model i Vogue
♡ Cafodd ei geni yn yr UDA (Unol Daleithiau America)
♡ Mae chwaer gyda Gigi Hadid sydd yn model hefyd - ei henw hi yw Bella Hadid
♡ Mae Gigi Hadid yn dal iawn - 5 troedfedd a 10 modfedd
♡ Mae Gigi Hadid yn byw yn Efrog Newydd
♡ Cafodd ei geni ym mis Ebrill
♡ Enillodd Gigi Hadid gwobr *Teen Choice Award for Choice Model*
♡ Mae Gigi Hadid yn ennill mwy na $5 miliwn am bob llun *(Ydy hwn yn wir? Golygydd - Mr Mason)*
♡ Mae Gigi Hadid yn hoffi coginio
♡ Mae Gigi Hadid yn cael mwy na 70 milliwn o ddilynwyr ar Instagram





# Croesair Iestyn




**Cliwiau:**

**I Lawr ↓**

*1. Dyn sy'n dod o Gymru (5)*
*2. "Rydw i eisiau ___" meddai Oliver (3)*
*4.  Dyn tew syn gwisgo coch ac yn hoffi ceirw (4,4)*
*6. Gwlad ar bwys Gwlad Thai (4)*
*7. Mae celyn yn gallu _____ (4)*
*8.    Mae'r dorf yn  cwyno bod y dyfarnwr wedi ei ____(4)*

**Ar draws →**

*2. Gair arall am hoffi (8)*
*3. Lliw banana (5)*
*5. Yn 2020 Gemau __________ Tokyo (8)*
*9. Mwy da = _____ (4)*
*10. Mae ci anhapus yn gwneud y sŵn yma (3)*
*11. Rydyn yn addurno hon amser Nadolig (6)*

# **Proffil Dafydd Iwan - arwr cenedlaethol**

gan Abi Jo

Cafodd Dafydd Iwan ei eni yn Mrynaman ary 24ain o Awst. Mae Dafydd Iwan yn 75 oed heddiw. Mae Brynaman yn bentref bach yn ne Cymru lle mae pawb yn nabod bron pawb arall.



Yn ddyn ifanc, dechreuodd Dafydd Iwan ysgrifennu a gwneud cerddoriaeth. Mae Dafydd yn gantor da iawn a rhai o ganeuon mwyaf poblogaidd Dafydd Iwan yw 'Yma o Hyd' a 'Carlo'. Mae bron pawb yng Nghymru yn gwybod y caneuon hyn. Mae Dafydd Iwan yn gantor talentog iawn ond mae Dafydd Iawn yn wleidydd hefyd. Mae Dafydd Iwan yn boblogaidd iawn yng Nghymru a rhai lefydd o Brydain oherwydd roedd Dafydd Iwan yn llywydd Plaid Cymru yn 2003 i 2010. Roedd e yn llywydd Plaid Cymru am 7 blynedd.

Roedd wedi gwneud llawer o pethau da gan gynnwys cael ei ddirwyo am £135 oherwydd roedd e wedi paentio ar arwyddion Saesneg gyda geiriau Cymraeg i brotestio dros hawliau y Gymraeg. Pan doedd e ddim wedi talu y dirwy, aeth i'r carchar am 3 mis.

Mae Dafydd Iwan yn creu llawer o arian pop blwyddyn mae'n gwneud rhywbeth fel £1.5miliwn pob blwyddyn (wir? - Gol.). Mae Dafydd Iwan yn byw yng Nghaernarfon heddiw gyda'i wraig yn ei dŷ. Mae gyda Dafydd Iwan mab o'r enw Llion Iwan a dau frawd o'r enwau Alun Ffred Jones a Huw Ceredig.

**Geirfa:**

*cantor (singer) gwleidydd (politician)*
*poblogaidd (popular)*
*llywydd (president)*
*dirwy (a fine) carchar (prison)*

# Chwilair 3 gan Zac

**Thema: Chwaraeon**

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| p | r | e | m | i | e | r | l | e | a | u | ug |
| ll | o | ch | r | y | g | b | i | i | s | o | l |
| ch | k | f | ll | o | a | g | w | r | ch | w | n |
| g | a | b | i | m | o | r | e | d | ff | u | o |
| o | g | dd | ch | o | e | dd | g | s | y | i | f |
| l | e | t | l | w | s | u | w | s | ch | y | i |
| n | t | r | o | n | a | l | d | o | e | i | o |
| b | r | p | e | l | f | a | s | g | e | d | i |
| ŵ | u | g | o | l | ff | t | n | w | a | n | ng |
| t | ch | w | a | r | a | e | o | n | h | d | b |
| s | g | p | e | l | d | r | o | e | d | c | e |
| ll | **s** | **t** | **r** | **e** | **i** | **c** | **w** | **r** | dd | e | s |

**Atebion:**

| | |
|---|---|
| **streicwr ✔** | **nofio** |
| **Ronaldo** | **pêl-droed** |
| **Premier** | **pêl-fasged** |
| **gôl** | **tlws** |
| **rygbi** | **bŵts** |
| **golff** | **chwaraeon** |

# Atebion

**Atebion Cwis James Bond:**

1.27 2.Sean Connery 3.Ernst Stavro Blofeld 4.No Time to Die 5. Dr. No, 6. The Man with the Golden Gun 7. Roger Moore 8. Tracy Bond 9. Mathilde Swann 10. chwech

# Atebion Cwis Random Kayla

1. Pwy oedd y dyn Spiderman cyntaf? Peter Parker
2. Sawl diwrnod tan y Nadolig ar 01.12.21? 25
3. Pwy yw seleb enwocaf 2021?  Dwayne Johnson The Rock
4. Faint o lythrennau yn y Wyddor Gymraeg? 29 llythyren
5. Beth yw prifddinas Brasil?Brasília
6. Beth yw prifddinas Cymru? Caerdydd
7. Pa flwyddyn y daeth y ffilm Spiderman cyntaf allan? 2002
8. Ym mha fis mae'r Pasg fel arfer? mis Ebrill
9. Ar ba dymheredd mae dŵr yn berwi? 100 gradd selsiws
10. Beth yw 2 enw arall am Sion Corn? St Nicholas, Santa Claus

**Atebion Cwis Shadow and Bone**

1.Alina Starkov 2.Ravka 3.Aer 4.Keta 5.Mal 6.Gwir 7.Aleksander 8.Gwir 9.Genya Safin 10. 13